

T: (01495) DX: 43956 Ebbw Vale
F: (01495) 355470 E: 21stcenturyschools@blaenau-gwent.gov.uk

Our Ref./Ein Cyf.
Your Ref./Eich Cyf. SN/CG/LP

Contact:/Cysylltwch â: Lynn Phillips

Date:/ Dyddiad: 26 Ebrill 2021

At:

- Staff (addysgu, heb fod yn addysgu a chymorth) Ysgol Arbennig Pen y Cwm
- Corff Llywodraethu Ysgol Arbennig Pen y Cwm
- Rhieni/Gofalwyr disgyblion yn mynychu Ysgol Arbennig Pen y Cwm
- Ymgynghoreion Statudol a phartion eraill a diddordeb

Annwyl Ymgynghorai,

Mae Pwyllgor Gweithredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi cytuno dechrau ymgynghoriad ffurfiol ar y cynnig dilynol:

Cynnig i Ymestyn Capasiti Ysgol Arbennig Pen y Cwm

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cynnig ymestyn capasiti Ysgol Arbennig Pen y Cwm o 120 i 175 lle, yn weithredol o fis Medi 2021. Er mwyn hwyluso'r capasiti estynedig, bydd y Cyngor yn ailwampio'r amgylchedd dysgu presennol i greu gofodau ystafell ddosbarth ychwanegol a chyfleusterau cysylltiedig h.y. toiledau. Yn ychwanegol, ac wrth ochr hyn, bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r ysgol i ddatblygu cynllun hirdymor i gefnogi twf a datblygiad parhaus. Felly, caiff y cynnig hwn ei gyflwyno mewn 2 ran:

- Rhan 1, cynyddu capasiti Ysgol Arbennig Pen y Cwm o 120 i 175 lle i baratoi ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22, a fyddai'n cynnwys gwaith ffisegol i'r adeilad presennol yn cynnwys:
 - Adleoli'r safle Ôl 16 (yn cynnwys 3 ystafell ddosbarth, ystafell gyffredin, ystafell sgiliau bywyd, toiledau a chyfleusterau hylendid)
 - Adleoli'r ardal weinyddol a gofod swyddfa presennol (yn cynnwys ystafell staff, ystafell PPA, cyfleuster cynadleddau ac ystafell gyfarfod fach)
 - Creu 2 ystafell ddosbarth cynradd ychwanegol
 - Creu 1 ystafell ddosbarth uwchradd ychwanegol a chyfleusterau cysylltiedig
 - Ad-leoli'r ardal chwarae meddal i'r llawr daear
 - Ailddatblygu'r ystafell Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Rhan 2, datblygu cynllun hirdymor i sicrhau capasiti ychwanegol i hwyluso twf a datblygiad parhaus.

Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn cyfathrebu gyda chi yn eich dewis iaith, dim ond i chi rhoi gwybod i ni pa un sydd well gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn creu unrhyw oedi.

The Council welcomes correspondence in Welsh and English and we will communicate with you in the language of your choice, as long as you let us know which you prefer. Corresponding in Welsh will not lead to any delay.

Bydd y cyfnod ymgynghori yn cychwyn ddydd Llun 26 Ebrill 2021 ac yn dod i ben ddydd Sul 6 Mehefin. Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i ymgynghoreion gael o leiaf 42 diwrnod i ymateb i'r ddogfen ymgynghori, gydag o leiaf 20 o'r dyddiau hyn yn ddyddiau ysgol.

Gellir gwneud unrhyw sylwadau ar y cynnig:

- Drwy e-bost i: 21stcenturyschools@blaenau-gwent.gov.uk

Neu drwy lenwi ffurflen ymateb (a atodir gyda'r ddogfen Ymgynghori) a'i dychwelyd at Claire Gardner, Rheolwr Gwasanaeth – Addysg, Trawsnewid a Newid Busnes, Cyfarwyddiaeth Addysg, Llawr 8 Llys Einion, Abertyleri, NP13 1DB neu drwy'r ddolen islaw:

<https://wh1.snapsurveys.com/s.asp?k=161702001361>


Oherwydd y sefyllfa argyfwng bresennol gyda COVID-19, gofynnir i chi nodi na chynhelir sesiynau ymgynghori galw heibio i'r cyhoedd fel rhan o'r broses ymgynghori. Gwneir trefniadau arbennig ar gyfer plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad fydd yn cynnwys, lle'n bosibl, farn yr Uwch Gyngor Ysgol. Bydd disgyblion yn cael eu fersiwn eu hunain o'r ddogfen ymgynghori a byddant yn cael cyfle i drafod y cynigion a chyflwyno eu barn a'u sylwadau.

Bydd y tîm Trawsnewid Addysg o'r Cyngor yn sicrhau y cofnodir yr holl sylwadau/barnau a roddir er mwyn medru gwneud penderfyniadau gwybodus ar yr amser priodol. Mae'r ddogfen ymgynghori yng nghyswllt y cynnig ar gael ar wefan Cyngor Blaenau Gwent. Mae'r ddolen yma:

<https://www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/cyngor/ymgynghoriadau/proposal-to-extend-the-capacity-at-pen-y-cwm-special-school/>

Atodir y ddogfen ymgynghori er hwylustod. Mae croeso i chi gysylltu â fi os ydych angen mwy o wybodaeth neu gopiâu papur o'r dogfennau.

Dymuniadau gorau,



Lynn Phillips
Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent